"Eto y mae teyrnas nefoedd yn debyg i fasnachwr sy'n chwilio am berlau gwych. Wedi iddo ddarganfod un perl gwerthfawr, aeth i ffwrdd a gwerthu'r cwbl oedd ganddo, a'i brynu."
(Mathew 13:45-46)

Dyma un o ddamhegion byrraf yr Arglwydd Iesu, ond, serch hynny, mae'n cynnwys neges effeithiol a phwerus. Dywed Crist mai ganddo Fe mae'r cyflawnder mewn bywyd y mae pawb yn ei geisio. Yna mae'n ein hatgoffa fod rhaid gollwng gafael ein serch ar bethau eraill os am fwynhau trysor y nef.

Y cyfanwerthwr

Y gair Groeg am 'masnachwr' yw 'emporos' sydd wedi rhoi'r gair Saesneg 'emporium' i ni. Ac, mewn gwrionedd, mae pob un ohonom yn fasnachwyr sydd yn chwilio am berlau gwerthfawr mewn bywyd. Yr ydym yn delio gyda hapusrwydd, arian, statws, llwyddiant, a phethau tebyg. Dyma sydd 'ar werth' i ni gan y byd o'n cwmpas. Gallwn eu cael am brisiau gwahanol, megis: uno gyda'r mwyafrif; ymroi i bleser; cymryd cyffuriau amrywiol; gweithio trwy'r dydd a'r nos; prynu pethau materol; gwneud elusen i dawelu cydwybod.
Er i bobl wneud hyn, does dim gwir fodlonrwydd heb Dduw, ac ni ddown at Dduw heb Grist. Mae'r ddameg yn awgrymu bod y masnachwr yn ymwybodol bod perl gwell i'w gael yn rhywle, hyd yn oed cyn iddo ddod o hyd iddo.

Y perl gwerthfawr.

Yna mae'n gweld y perl gwerthfawr. Gallwch ddychmygu masnachwr teithiol yr Hen Fyd yn dod i ryw farchnad yn rhywle ac yn gweld y perl gorau eto. Mae'n gweld yn syth ei fod yn hynod o werthfawr, yn wir yn werth mwy na'r holl berlau sydd ganddo eisoes gyda'i gilydd.

Mae hwn yn gam allweddol. Rhaid i berson weld bod Crist yn rhagori ar bleserau gwag y llawr, faint bynnag o'r rheini sydd ar gael i ni:

"ar ddeng mil y mae'n rhagori
o wrthrychau penna'r byd." (Ann Griffiths)

Dydy pawb ddim yn gweld hyn, wrth gwrs. Dydy pawb ddim yn gweld rhagoriaeth Crist ar deganau'r byd. Daw hyn trwy olwg ffydd. Yr Ysbryd Glân sydd yn agor llygaid person i weld fod yr ateb i'w angen dyfnaf yng Nghrist ei hun. Rhaid i berson 'ddarganfod' Crist, rhaid iddo wybod amdano, ond hefyd sylweddoli ei werth.

Mae'n hynod o bwysig ein bod ni fel Cristnogion yn cymeradwyo Crist

ac yn dangos ei ragoriaeth ar bethau'r byd, pethau da neu ddrwg, sydd yn wag hebddo. Rhaid i ni ddangos natur ei gariad grasol, cariad aberthol y groes, cariad penderfynol Duw ers tragwyddoldeb, cariad i gynllunio, paratoi, gweithredu a chwblhau ei waith ym mywyd pechadur ac yn y byd. Rhaid i ni ddangos ei dangnefedd a'i nerth yn ein bywyd, hyd yn oed yn wyneb pob math o anawsterau.

Y pryniant

Rhaid i ni gofio na allwn 'brynu' bywyd tragwyddol gan Dduw yn yr ystyr bod gennym ni fodd i dalu trwy weithredoedd da neu ein haeddiant ni. Darlun o'r ddameg yw prynu.

Ystyr hyn yw bod y masnachwr yn awyddus iawn i gael y perl gwerthfawr yn eiddo iddo. Ac mae hyn yn dweud wrthym bod gwahaniaeth rhwng deall mai Crist yw Gwaredwr y byd – ei fod wedi marw ar Galfaria yn lle pechaduriaid, a'i fod wedi atgyfodi i'w cyfiawnhau – a'i adnabod fel ein Gwaredwr personol ni. Fel roedd raid i'r masnachwr gael y perl yn ei feddiant cyn dod yn gyfoethog, mae'n rhaid i ni ddod i berthynas bersonol â'r Arglwydd Iesu cyn cael cyfoeth gras Duw. Yna byddwn yn gallu dweud fel y ferch yn Caniad Solomon: **"Y mae fy nghariad yn eiddo i mi, a minnau'n eiddo iddo ef"** (2.16).

Ydy hynny'n golygu bod rhaid i ni fyw fel mynaich i gael rhan yn nheyrnas nefoedd? Na, mae'n golygu ein bod yn ceisio yn gyntaf deyrnas Dduw a'i gyfiawnder ef. Mater o flaenoriaeth yn y galon yw hyn, mater o wrthrych ein serch. Ni allwn wasanaethu Duw a Mamon, ni allwn garu Crist a charu'r byd. **"Os yw rhywun yn caru'r byd, nid yw cariad y Tad ynddo, oherwydd y cwbl sydd yn y byd - trachwant y cnawd, a thrachwant y llygaid, a balchder mewn meddiannau nid o'r Tad y mae, ond o'r byd"** (1 Ioan 2:15-16). Os ydym yn fodlon ildio'r cyfan i'r Arglwydd fe'i cawn Ef yn llawn, ac fe gawn y pethau sy'n angenrheidiol i ni hefyd, yn ôl ei addewid. (Mathew 6.33). Diolch am y ddameg, diolch fod teyrnas nefoedd wedi dod i'n plith yng Nghrist, a diolch y cawn ein cyfoethogi â phob bendith ysbrydol yn y nefolion leoedd, yng Nghrist Iesu ein Harglwydd.